**CYFARFOD CABINET 28 Mehefin 2016**

**ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

Cyfarfod 28 Ionawr 2016

A. EITEM - STRATEGAETH LLETYA POBL HŶN
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s3521/Eitem%205%20-%20Strategaeth%20Lletya.pdf?LLL=1

Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd ynghyd â strategaeth drafft lletya pobl hŷn

**Penderfynwyd:**

**Gofyn i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sicrhau bod y materion isod yn cael eu cynnwys o fewn y strategaeth lletya pobl hŷn:**

- **Cydnabyddiaeth bod stoc o dai hynafol mewn rhai ardaloedd ac felly yn amhosib darparu gwelyau ysbyty yn y tai oherwydd maint penodedig i wely ysbyty a'r angen i ystyried opsiynau gwahanol yn yr ardaloedd hyn**
- **Bod angen cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol ar gyfer rhai ardaloedd i gyfarch y twf mewn nifer o bobl hŷn sydd wedi ymddeol i'r ardaloedd hyn a'r gost o ddarparu gwasanaethau iddynt.**

B. EITEM - ADRODDIAD BLYNYDDOL AGGCC (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) 2014-15 – RHAGLEN WAITH
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s3568/Eitem%207%20-%20Rhaglen%20Waith%20-%20Adroddiad%20Gwerthuso%20Perfformiad%20201415%20AGGCC.pdf?LLL=1

Ystyriwyd Rhaglen Waith a luniwyd mewn ymateb i Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014/15 yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Penderfynwyd:**

- **Derbyn a nodi'r rhaglen waith yn ddarostyngedig i dderbyn amserlen gadarn ar gyfer gweithredu i'w gyflwyno i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar 23 Chwefror 2016.**
- **Enwebu'r aelodau canlynol i gynorthwyo'r swyddogion perthnasol a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant I lunio briff ar gyfer y cynllun strategol mewn perthynas â chymorth i ofalwyr:**
  **Y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones**
  **Y Cynghorydd R H Wyn Williams**

Cyfarfod 17 Mawrth 2016

C. EITEM - ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH ADDYSG
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s4201/Adroddiad%20Blynyddol%20Gwasanaeth%20Addysg.pdf?LLL=1

Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg yn amlinellu perfformiad y Gwasanaeth Addysg yn ystod y flwyddyn gan nodi cryfderau a gwendidau y mae'r Gwasanaeth wedi eu hadnabod y mae angen rhoi sylw iddynt.

Penderfynwyd:

- Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol.
- Bod yr Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg yn gwneud pwynt penodol i drafod gydag ysgolion yn y categori coch i asesu'r math o gefnogaeth y mae'r ysgolion hynny yn cael gan yr awdurdod, GwE ac eraill.
- Bod yr elfennau Gwasanaethau Cefnogol yn cael sylw gan yr Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg yn hytrach nag yn y Pwyllgor Craffu llawn
- Oherwydd y perygl o oedi mewn adrodd ar berfformiad, gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gyflwyno adroddiad interim yn ôl i'r Pwyllgor Craffu yn yr Hydref i weld beth yw patrwm canlyniadau arholiadau'r haf.
- Bod y Pwyllgor Craffu yn rhoi sylw penodol i Addysg Arbennig yn ei rhaglen waith ar gyfer flwyddyn nesaf gan ystyried ei graffu yn fuan yng nghyfarfod mis Mai.

Cyfarfod 26 Mai 2016

CH. EITEM – POLISI CLUDIANT – ADRAN OEDOLION A LLESIANT

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s5744/Adroddiad%20ar%20Polisi%20Cludiant.pdf?LLL=1

Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd yn amlygu'r angen i'r Cyngor osod polisi a threfniadau cludiant newydd I'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant mewn ymateb I ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Amlygwyd bod y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Cyngor I hybu llesiant ein dinasyddion er mwyn hybu a chefnogi annibyniaeth.

**Penderfynwyd:**

**Gwneud yr argymhellion canlynol I'r Cabinet:**

- **Gweithredu Opsiwn 3, sydd yn cydfynd gydag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, drwy adeiladu ar gryfderau unigolyn ac edrych ar adeiladu ar gryfderau cymunedol.**
- **Sicrhau defnydd priodol a chydlynu trefniadau cludiant Mewnol.**
- **Nodi mwy o fanylion yn yr Adroddiad I'r Cabinet am y broses apêl.**
- **Ystyried yn ofalus yr effaith ar unigolion o safbwynt y gost ac a ellir lliniaru'r effaith.**
- **Gwneud cais I Sir y Fflint amlygu'r gwersi a ddysgwyd/rhwystrau a wynebwyd, fel bod modd eu cynnwys yn yr adroddiad I'r Cabinet**
- **Ystyried trefniadau mewn siroedd eraill sydd â phroffil tebyg I Wynedd.**
- **Rhoi ystyriaeth hafal I bob rhan o Wynedd wledig a threfol o ran hwyluso a chydlynu trefniadau cludiant.**